

CYFARFOD:	PWYLLGOR PENSIYNAU
DYDDIAD:	24 MEHEFIN 2021
TEITL:	DIWEDDARIAD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. Cyflwyniad

Mae'r cydweithio wedi bod yn mynd o nerth i nerth ers ei sefydlu yn 2017 ac erbyn 31ain Mawrth 2021 mae 81% o gronfa Gwynedd wedi ei bwlio gyda Partneriaeth Pensiwn Cymru-54% drwy'r prif gronfeydd a 27% drwy'r buddsoddiadau goddefol.

Mae'r perfformiad hyd yn hyn wedi bod yn safonol iawn ac mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill ac felly, mae'r adroddiad yma'n diweddarau'r Pwyllgor.

2. Cronfeydd Ecwiti Byd-Eang

Sefydlwyd y cronfeydd yma yn Chwefror 2019 a gellir gweld eu perfformiad hyd at 31 Mawrth 2021 isod.

Cronfa Twf Byd-Eang

Mae hwn yn gronfa Fyd-Eang sydd yn cynnwys tri rheolwr sylfaenol (Baillie Gifford, Veritas a Pzena) gyda Link fel y rheolwr buddsoddi.

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Perfformiad	5.3	49.5	17.6
Meincnod	3.6	38.9	14.2
Gwarged enillion	1.7	10.6	3.4

Bu i'r Gronfa berfformio'n sylweddol uwch na'r meincnod yn gyson gyda perfformiad cryf ers y cychwyn gan Baillie Gifford yn bennaf. Mae Baillie Gifford yn buddsoddi mewn cwmnïau lle maent o'r farn eu bod yn cael mantais gystadleuol gynaliadwy yn eu diwydiannau ac a fydd yn tyfu enillion ynghynt na chyfartaledd y farchnad. Mae Pzena wedi bod yn tanberfformio yn hanesyddol ond wedi elwa yn ddiweddar gyda stociau gwerth yn perfformio'n well na'u cyfoedion twf am y tro cyntaf ar sail chwarterol ers 2018. Bu i hyn alluogi Pzena i berfformio'n sylweddol uwch yn y flwyddyn diwethaf. Mae Veritas wedi bod yn perfformio yn gryf ers y cychwyn ond wedi dioddef yn y flwyddyn diwethaf gyda stociau twf ddim yn perfformio cystal.

Mae ymdrechion gan rheolwyr buddsoddi o fewn y gronfa yma i leihau ôl traed carbon gyda Baillie Gifford wedi datblygu cronfa sydd yn dad- fuddsoddi o gwmnïau echdynwyr tanwydd ffosil a darparwyr gwasanaeth tanwydd ffosil a Pzena am werthu stociau mewn cwmni a oedd yn cyfrannu i 35% o allyriadau carbon y gronfa yma.

Cronfa Cyfleoedd Byd-Eang

Mae hwn yn gronfa Fyd-Eang a Rhanbarthol sydd yn cynnwys saith rheolwr sylfaenol (Morgan Stanley, Numeric, Sanders, Jacobs Levy, SW Mitchell, NWQ a Oaktree) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Mawrth 2021:

	Tri Mis	Blwyddyn	Ers Cychwyn
Perfformiad	5.9	42.0	15.6
Meincnod	3.6	38.9	13.6
Gwarged enillion	2.3	3.1	2.0

Mae'r gronfa yma wedi ei selio ar ddull cyfunol gyda nifer o steiliau gwahanol (megis gwerth a twf) sydd yn cyd- fynd gyda'i gilydd. Bu i'r Gronfa gofnodi dychweliadau positif dros y cyfnodau a gorffen uwchben y meincnod gyda perfformiad cryf ers cychwyn gan Morgan Stanley, SW Mitchell a Sanders.

Yn y flwyddyn diwethaf gwelwyd adferiad arwyddocaol mewn stociau gwerth a bydd hyn yn parhau am ychydig o amser i ddod er bod yr effaith mwyaf wedi digwydd. Mae dychweliadau wedi bod yn gryf yn y farchnad a gellir gweld effaith positif y brechlyn yn glir ar farchnadoedd UDA a'r **DU**.

Mae 'decarbonisation overlay' yn weithredol ar y gronfa yma ers 31 Mawrth 2021. Yn sgil hyn, bydd mandad y gronfa yma yn sicrhau gostyngiad wedi'i dargedu o 25% o ran ei ôl troed carbon a'i gronfeydd tanwydd ffosil o'i gymharu â'i feincnod. Bydd y portffolio hefyd yn gwahardd cwmnïau sy'n dibynnu ar lo i greu refeniw.

3. Cronfeydd Incwm Sefydlog

Lansiodd y bartneriaeth bump is- gronfa incwm sefydlog yng Ngorffennaf a Medi 2020 ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi buddsoddi mewn dau ohonynt: Cronfa Gredyd Aml-ased a Chronfa Enillion Bond Absoliwt.

Cronfa Gredyd Aml- ased

Trosglwyddwyd ein hecwiti byd-eang o Fidelity i'r gronfa yma yng Ngorffennaf 2020. Mae gan y gronfa bum rheolwr buddsoddi sylfaenol (ICG, Man GLG, BlueBay, Barings a Voya) gyda Russell Investments fel y rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Mawrth 2021:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
Perfformiad	0.6	6.0
Meincnod	1.00	2.6
Gwarged enillion	(0.4)	3.4

Bu i'r Gronfa berfformio'n is na'r meincnod yn y cyfnod hwn, ond yn uwch na'r meincnod ers y cychwyn. Bu i ddyhead cadarnhaol buddsoddwyr am risg hybu'r galw am gredyd yn y chwarter cyntaf a gwobrwywyd safle credyd corfforaethol y gronfa yn yr amgylchedd hwn. Ers hynny

mae'r marchnadoedd giltiau wedi gostwng ac mae hyn wedi cael effaith ar y perfformiad. Mae'n ddyddiau cynnar iawn i'r gronfa yma felly bydd perfformiad fwy nodweddiadol yn datblygu yn y dyfodol.

Cronfa Enillion Bond Absoliwt

Trosglwyddwyd ein bondiau o Insight i'r gronfa yma ym Medi 2020. Mae gan y gronfa bedwar rheolwr buddsoddi sylfaenol (Wellington, Putnam, Aegon a Insight) a Russell Investments yw'r rheolwr buddsoddi. Mae'r perfformiad wedi bod fel a ganlyn hyd at 31 Mawrth 2021:

	Tri Mis	Ers Cychwyn
Perfformiad	1.7	2.3
Meincnod	0.5	1.0
Gwarged enillion	1.2	1.3

Gorffennodd y Gronfa o flaen y meincnod yn y chwarter ac ers cychwyn. Bu i gefnogaeth ariannol a llai o bryderon uniongyrchol am anweddolrwydd ddarparu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer y gronfa. Mae'n ddyddiau cynnar iawn i'r gronfa yma hefyd felly bydd perfformiad fwy nodweddiadol yn datblygu yn y dyfodol.

4. Datblygiadau

4.1 Marchnadoedd Datblygol

Y trosglwyddiad nesaf fydd yn digwydd yw Marchnadoedd Datblygol. Cafodd strwythur y gronfa, rheolwyr posib ac amcan ffioedd ei gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor, ac mae'r prospectws wedi ei gymeradwyo gan yr FCA ym Mawrth 2021.

Bydd cronfa Gwynedd yn symud ein cyfran Marchnadoedd Datblygol o gwmni Fidelity i'r gronfa yma gyda'r dyddiad lansio yn Hydref 2021.

4.2 Marchnadoedd Preifat

Mae grŵp wedi ei sefydlu yn edrych ar yr opsiynau o gyfuno asedau i'r categori yma sydd yn cael ei gynorthwyo gan Hymans Robertson. Mae asesiad o ofynion pob cronfa wedi cael ei wneud gyda thrafodaeth barhaus i benderfynu ar y strwythur a mecanwaith priodol i fuddsoddi ynddo.

Credyd Preifat ac Isadeiladwaith yw dau o'r prif feysydd ffocws gydag eiddo byd-eang hefyd yn cael ei ystyried.

4.3 Cyhoeddiadau

Mae gan PPC nifer o gyhoeddiadau sydd yn cael eu diweddarau'n barhaus. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Polisi Buddsoddi Cyfrifol
- Polisi Pleidleisio
- Cynllun Cyfathrebu

- Matrics Llywodraethu
- Polisi Hyfforddi a Chynlluniau Hyfforddiant
- Polisi Risgiau yn Sgil yr Hinsawdd
- Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau
- Polisi Risg a Chofrestr Risg
- Cynllun Busnes

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan PPC: www.partneriaethpensiwncymru.org

4.4 Cynrychiolydd Aelodau ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu

Yn ei gyfarfod 24ain Mawrth 2021 bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gynrychiolydd Aelodau'r Cynllun, a oedd yn manylu ar y broses benodi a argymhellir a'r fanyleb person a baratowyd gan y Gweithgor Swyddogion.

O ran y broses benodi, argymhellodd yr adroddiad y dylai pob Bwrdd Pensiwn Lleol enwebu un cynrychiolydd aelodau'r cynllun a fyddai'n cyflwyno mynegiant o ddiddordeb yn nodi ei rinweddau penodol yn erbyn y fanyleb person. Byddai'r broses benodi yn cael ei chynnal gan is-grŵp Cyd-bwyllgor Llywodraethu a fyddai'n cyflwyno argymhelliad o ran penodi i'w gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Ar ôl i'r fanyleb person a'r broses benodi gael eu cymeradwyo'n ffurfiol, byddai angen diwygio'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau a byddai angen i'r wyth awdurdod cyfansoddol gymeradwyo'r addasiadau.

O ran y broses benodi cytunwyd dylai'r penodiad fod yn ddwy flynedd a dylai'r penodiad gynnwys dirprwy gynrychiolydd o Fwrdd Pensiwn gwahanol i Gynrychiolydd Aelod y Cynllun.

Disgwylir i'r broses gymryd rhwng chwech a deuddeg mis gan fod angen cymeradwyaeth Cyngor llawn gan bob awdurdod cyfansoddol ar gyfer newidiadau i'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau.

5. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.